# FFYNNON TÂF A GWAELOD

Gohebydd - E. June Huws

Ysgol Feithrin Ffynnon Taf

Bu newidiadau mawr yn yr ysgol yn ddiweddar pan adawodd y ddwy athrawes Mrs Pat Taylor a Mrs Angharad Jones. Bu Pat Taylor yn y feithrinfa am 8 mlynedd a bu'n weithgar a phoblogaidd iawn. Mae Angharad Jones a fu'n gweithio'n ddygn yno ers dwy flynedd yn gadael i gael baban. Pob hwyl i'r ddwy ohonynt a diolch o galon ar ran pob rhiant am eu brwdfrydedd. Mae'r ddwy wedi gofyn i'r golofn hon ddiolch yn fawr i rieni'r feithrinfa am yr anrhegion hyfryd a gawsant ar eu hymadawiad.

Croeso cynnes nawr i'r ddwy athrawes newydd - Mrs Hazel Evans o Waelod-y-Garth a Mrs Cheryl Cox o Bontypridd.

Ysgol Gwaelod-y-Garth

Mae noson rhieni i'w chynnal yn neuadd y pentref am saith o'r gloch ar 3 Mawrth. Mae hwn yn gyfarfod pwysig ac mae disgwyl i rieni wneud ymdrech i fod yn bresennol.

Bydd ffrindiau'r ysgol yn cynnal twmpath yn Neuadd Gymuned Ffynnon Taf nos Sadwrn 12 Mawrth. Dewch yn llu.

Neuadd Gwaelod-y-Garth

Cynhelir arddangosfa o waith y diweddar Arthur Miles yn y neuadd ddydd Sul 28 Chwefror o 10.30 - 6.00.

Gr@p Heddwch

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gr@p heddwch yn ystafell y Pwyllgor, Neuadd Gwaelod-y-Garth nos Iau, 18 Chwefror. Rhai o'r pynciau dan sylw oedd Hinkley Point a phroblemau yr amgylchedd.

'River Glade'!

Allwch chi gredu mai dyna enw'r stad breifat o dai newydd ar lannau Afon Taf yng Ngwaelod-y-Garth? Mae llawer ohonon ni'r pentrefwyr am sgwennu at Rendell, y cwmni a adeiladodd y stad i awgrymu enw Cymraeg addas, efallai yn cynnwys enw Arthur Miles, yr arlunydd a fu farw'n ddiweddar. Croeso i chithau wneud hefyd!

# Y CREIGIAU

PRIODAS

Ar ddydd Gwener, y pymthegfed o Ionawr, priodwyd Huw Rhys Lewis a Carol Taylor, yng nghapel Methodistaidd Northwood, Llundain. Mab Mr a Mrs Hywel Lewis, Parc y Bryn yw Huw, sydd bellach wrth ei alwedigaeth fel pensaer yn Llundain - mae ganddo swyddfa ar Oxford Street mewn gwirioned.

Bu gan Huw ran yng ngwaith cynllunio y rhodfa siopa newydd sbon yng Nghaerdydd, sef y Queens West, ac un o'i gyfrifoldebau nesaf fydd gweithio ar y datblygiad newydd lle roedd yr hen Allders. Dymunwn yn dda i'r par ifanc wrth iddynt gychwyn ar eu rhawd briodasol yn eu cartref newydd yn Northwood, Gogledd Llundain.

DYRCHAFIAD

Llongyfarchion i Peter Condron ar benodiad newydd yn ddiweddar. Gweithio fel peiriannydd i gwmni BBC yn Wenfo mae Peter wedi bod yn wneud ers rhai blynyddoedd, ond golyga'r swydd newydd hon y bydd yn rhaid i'r teulu bach ddilyn 'dad' i gyfeiriad Warwick lle bydd ganddo swydd efo cryn gyfrifoldeb, eto efo cwmni BBC. Pob lwc iddo yntau.

LLADRON

Welsoch chi nhw? Mae nhw'n bla yma'n y Creigiau a phentrefi cyfagos! Cofiwch, byddwch yn effro, byddwch ar eich gwyliadwriaeth - bydd P.C. Trefor Lloyd (Swyddfa'r Heddlu, Ffynon Tâf, 810440) yn hapus i dderbyn unrhyw wybodaeth a all fod o gymorth i'r heddlu ddal y drwg weithredwyr yma!

"Genau glan a gana'n glir"


Dan nawdd Eglwysi Annibynnol Groeswen a Bethlehem

Rhaglen

## Y GANFED CYMANFA GANU

A gynhelir yng

**NGHAPEL BETHLEHEM GWAELOD-Y-GARTH**



**Dydd Gwener y Groglith, 1 Ebrill 1988**

Y Cyfarfodydd i ddechrau am 10.30, 2.30 a 6.00 o'r gloch

Arweinydd:
ALUN GUY
Caerdydd

Cyfeilyddion:
Mrs V. Archard, Groeswen
Mr. Glyndwr Williams, Bethlehem
Mr. Christopher Powell, Bethlehem

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Ann Dwynwen Davies

MERCHED Y WAWR

Ruth Parry, BBC Cymru, oedd wrth y llyw yng nghyfarfod mis Chwefror yn trafod y testun "Merched Iach". Nid dyma'r tro cyntaf iddi ymweld â Changen y Garth ac mae hi bob amser yn llwyddo i greu cywair cartrefol a chyfeillgar. Nan Griffiths, Llwyn Celyn fydd gyda ni yng nghyfarfod Mawrth, Nos Iau, Mawrth 10 fed, yn sôn am Adnewyddu hen Ddodrefn.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Gareth a Morfudd Huws, Rhian a Rhodri, Lôn y Fro, yn eu profedigaeth o golli mam Gareth, Mrs Elizabeth Hughes ym mis Ionawr.

YR YSGOL FEITHRIN

Mae gweithgareddau ar y gweill gan y pwyllgor er mwyn chwyddo'r coffrau yn ystod yr wythnosau nesaf. Gobeithir cynnal Taith Gerdded Noddedig a Ffair Gwerthu Dillad, a bydd manylion pellach yn y golofn hon yn y rhifyn nesa.

NOSON HWYR

Llongyfarchiadau calonnog i'r aelodau hynny o Deulu Twm sy'n byw ym Mhentyrch am eu hymdrech lew yn y Beiblthon ugain awr, Nos Wener Chwefror 12fed a Dydd Sadwrn 13eg.